# PAPURAU BUSNES

## Rhan I - Adran D

## Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 20 Gorffennaf 2000

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Ddatblygu Economaidd

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa gynlluniau sydd ganddo i newid meini prawf derbyn neu wrthod y Cymorth Dewisol Rhanbarthol? (WAQ6556)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Sut mae meini prawf derbyn neu wrthod y Cymorth Dewisol Rhanbarthol wedi newid dros yr 20 mlynedd diwethaf? A wnaiff restru ym mha ffordd y maent wedi newid? (WAQ6557)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pryd gafodd meini prawf derbyn neu wrthod y Cymorth Dewisol Rhanbarthol eu newid ddiwethaf? (WAQ6558)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Beth yw manylion meini prawf derbyn neu wrthod y Cymorth Dewisol Rhanbarthol? (WAQ6559)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff roi gwybod i'r Cynulliad am unrhyw gynlluniau i newid meini prawf derbyn neu wrthod y Cymorth Dewisol Rhanbarthol cyn cytuno i unrhyw goncordat? (WAQ6564)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff geisio pleidlais gadarnhau gan y Cynulliad cyn cytuno ar unrhyw goncordat mewn perthynas â Chymorth Dewisol Rhanbarthol gyda'r DTI neu Ysgrifennydd Gwladol Cymru? (WAQ6565)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa drafodaethau a gafodd gyda'r DTI mewn perthynas â meini prawf derbyn neu wrthod y Cymorth Dewisol Rhanbarthol? (WAQ6566)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A fydd meini prawf derbyn neu wrthod y Cymorth Dewisol Rhanbarthol yn gweithredu ar yr un sail ag yr oeddent cyn datganoli? (WAQ6567)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Ar ba sail y gwrthodwyd cais BAE am Gymorth Dewisol Rhanbarthol? Am ba wybodaeth benodol y mae'n dal i aros? (WAQ6570)

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Faint yw cyfnodau aros rhestri aros ysbytai ar gyfer pob ysbyty, ar y lefel isaf bosibl yng Ngorllewin De Cymru? (WAQ6560)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Faint oedd cyfnodau aros rhestri aros ysbytai ym mis Mai 1997 ar gyfer pob ysbyty, ar y lefel isaf bosibl yng Ngorllewin De Cymru? (WAQ6561)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Beth oedd rhestri aros ysbytai ym mis Mai 1997 ar gyfer pob ysbyty, ar y lefel isaf bosibl yng Ngorllewin De Cymru? (WAQ6562)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Beth yw rhestri aros ysbytai ar gyfer pob ysbyty, ar y lefel isaf bosibl yng Ngorllewin De Cymru? (WAQ6563)

**David Melding (Canol De Cymru);** A wnaiff ymgynghori â chymuned y Moslemiaid yng Nghymru i edrych ar bosibiliadau darparu gwasanaeth enwaedu i ddynion yn yr NHS o ystyried pa mor beryglus yw'r llawdriniaethau a ddarperir gan ymarferwyr digymhwyster. (WAQ6571)

**David Melding (Canol De Cymru);** A roddir triniaeth ECT i blant yng Nghymru o dan yr NHS, ac os rhoddir triniaeth o'r fath, o dan ba amodau y mae'n cael ei rhoi. (WAQ6572)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru**); A wnaiff gefnogi rhoi therapi cynrhon ar bresgripsiwn. (WAQ6593)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Pa ymchwil a wnaethpwyd i fanteision therapi cynrhon o ran costau o'i gymharu â thriniaethau mwy confensiynol. (WAQ6594)

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Addysg a Phlant

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Beth yw maint cyfartalog dosbarthiadau ar gyfer pob oedran posibl ym mhob ysgol, ar y lefel isaf bosibl yng Ngorllewin De Cymru? (WAQ6568)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Beth oedd maint cyfartalog dosbarthiadau ar gyfer pob oedran posibl ym mhob ysgol, ar y lefel isaf bosibl yng Ngorllewin De Cymru ym mis Mai

1997? (WAQ6569)

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Addysg a Hyfforddiant

**Elin Jones (Ceredigion);** Faint o fyfyrwyr AU ac AB yng Nghymru sydd wedi derbyn Cronfeydd Mynediad yn ystod y 5 mlynedd diwethaf y mae ffigurau ar gael ar eu cyfer? (WAQ6573)

**Elin Jones (Ceredigion);** Faint o geisiadau a dderbyniwyd gan sefydliadau Addysg Uwch am Gronfeydd Mynediad? (WAQ6574)

**Elin Jones (Ceredigion);** Faint mae pob sefydliad addysg uwch wedi ei dderbyn a'i ddosbarthu ar ffurf Cronfeydd Mynediad dros y 5 mlynedd diwethaf y mae ffigurau ar gael ar eu cyfer? (WAQ6575)

**Elin Jones (Ceredigion);** Faint o fyfyrwyr sydd wedi methu â chwblhau cyrsiau mewn sefydliadau AU yng Nghymru dros y 5 mlynedd diwethaf? (WAQ6576)

**Elin Jones (Ceredigion);** Pa ffigurau sydd ar gael ar ddyledion myfyrwyr yng Nghymru? (WAQ6577)

**Elin Jones (Ceredigion);** Pa ganran o'r ceisiadau am Gronfeydd Mynediad i bob un o'r Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru sydd wedi bod yn llwyddiannus? (WAQ6578)

**Elin Jones (Ceredigion);** Faint o arian a dalwyd i fyfyrwyr Addysg Uwch ar ffurf grantiau cynhaliaeth yn y blynyddoedd 1996-97, 1997-98, 1998-99? (WAQ6579)

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa drafodaethau y mae hi wedi eu cael gydag Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau ynghylch gwneud y Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn rhan o gyfraith y DU? (WAQ6580)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A oes unrhyw reoliadau sy'n berthnasol i'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd sydd i'w cyflwyno cyn hir mewn perthynas â chaniatáu trwyddedau treillio morol. Beth yw'r rheoliadau hyn? (WAQ6581)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa asesiadau gorfodol (h.y. Asesiad Effaith Amgylcheddol neu Asesiad Effeithiau Cynyddol) sydd yn bodoli mewn perthynas â thrwyddedau treillio morol cyfansymiol (WAQ6582)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa sail statudol sy'n bodoli sydd yn caniatáu i Ystad y Goron weithredu ar gyngor a roddwyd gan y Cynulliad, Adran yr Amgylchedd Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau neu unrhyw gyrff Llywodraethol eraill? (WAQ6583)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Gyda phwy y bydd Ystad y Goron yn ymgynghori cyn cyflwyno trwydded treillio morol? (WAQ6584)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pwy sy'n penderfynu caniatáu trwyddedau treillio morol yn Nyfroedd Cymru? (WAQ6585)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pwy sydd yn berchen ar yr hawliau mwynol a phwy sy'n caniatáu trwyddedau yn Nyfroedd Cymru? (WAQ6586)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Sut bydd y newidiadau i Gyfarwyddeb Cynefinoedd y CE, yn enwedig ei gyfarwyddebau mewn perthynas â chynefinoedd morol, yn effeithio ar bolisi'r Cynulliad? (WAQ6587)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa ystyriaeth y mae hi wedi ei rhoi i gyfarwyddebau Cynefinoedd newydd neu ddiwygiedig y CE, yn enwedig ei gyfarwyddebau mewn perthynas â chynefinoedd morol ym Môr Hafren a'u heffaith ar bolisi'r Cynulliad? (WAQ6588)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Sut mae cyfarwyddeb Cynefinoedd y CE, yn enwedig ei gyfarwyddebau mewn perthynas â threillio morol, wedi effeithio ar bolisi'r Cynulliad? (WAQ6589)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Beth fydd effaith peidio â chydymffurfio â chyfarwyddebau Cynefinoedd y CE ar ganiatáu Cronfeydd Strwythurol Ewrop? (WAQ6590)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa ddyfarniadau cyfreithiol diweddar a) sydd wedi effeithio ar gyfarwyddeb Cynefinoedd y CE mewn perthynas â threillio morol o arfordir Cymru a b) a fydd yn effeithio arni? (WAQ6591)